# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# Answers to Questions not reached in Plenary
# 06/05/2008

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[R] signifies that the Member has declared an interest.
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*
[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Employment Trends

**Q12 Joyce Watson:** What assessment has the Welsh Assembly Government made of recent employment trends in Wales? OAQ(3)0976(FM)

**The First Minister:** The employment rate in Wales over December 2007 to February 2008 was 71.3 per cent, well above its historical average. The level of employment is up 128,000 or 11 per cent since the start of the Assembly.

### Patrymau Cyflogaeth

**C12 Joyce Watson:** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud o batrymau cyflogaeth diweddar yng Nghymru? OAQ(3)0976(FM)

**Y Prif Weinidog:** O fis Rhagfyr 2007 i fis Chwefror 2008, 71.3 y cant oedd y gyfradd gyflogaeth yng Nghymru, sydd llawer yn uwch na'r gyfartaledd flaenorol. Mae lefel cyflogaeth wedi cynyddu 128,000 neu 11 y cant ers sefydlu'r Cynulliad.

### Newid yn yr Hinsawdd

**C13 Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymrwymiad y Llywodraeth i ymateb i'r her o ran newid yn yr hinsawdd? OAQ(3)0986(FM) [W]

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn sylweddoli bod mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn un o'r heriau mwyaf sy'n ein hwynebu. Yr ydym wedi ymrwymo yn 'Cymru'n Un' i sicrhau bod allyriadau blynyddol yn gostwng 3 y cant, ac yr ydym yn datblygu rhaglen weithredu sy'n nodi sut y byddwn ni'n mynd i'r afael â'r her honno.

### Climate Change

**Q13 Alun Ffred Jones:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's commitment to respond to the challenge of climate change? OAQ(3)0986(FM) [W]

**The First Minister:** The Assembly Government recognises that dealing with the causes and effects of climate change is one of the biggest challenges facing us. 'One Wales' commits us to delivering an annual 3 per cent reduction in emissions, and we are putting together a programme of action setting our how we will meet that challenge.

### Polish Immigrant Workers

**Q14 Alun Davies:** Will the Minister make a statement on the provision of accommodation for Polish immigrant workers in west Wales? OAQ(3)0978(FM)

**The First Minister:** The Welsh Assembly Government welcomes Polish migrant workers to Wales. They generally secure

### Gweithwyr Pwylaidd

**C14 Alun Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu llety ar gyfer gweithwyr Pwylaidd sydd wedi mewnfudo i orllewin Cymru? OAQ(3)0978(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu gweithwyr sydd wedi mewnfudo o Wlad Pwyl i Gymru.

their own accommodation through local housing markets or with assistance from employers although they are entitled to homelessness advice from the local authority. We are bettering our understanding of the needs of migrant populations and impacts on the total population.

Yn gyffredinol, maent yn dod o hyd i'w llety eu hunain drwy'r marchnadoedd tai lleol neu gyda chymorth gan eu cyflogwyr. Mae hawl ganddynt i gael y cyngor a roddir i bobl ddigartref gan yr awdurdod lleol. Yr ydym yn gweithio i wella ein dealltwriaeth o anghenion poblogaethau mudol a'r effaith y maent yn ei chael ar y boblogaeth yn ei chyfanrwydd.

**Pay in the NHS**

**Tâl yn y GIG**

**Q15 Darren Millar:** Will the First Minister make a statement on pay in the NHS? OAQ(3)0977(FM)

**C15 Darren Millar:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am dâl yn y GIG? OAQ(3)0977(FM)

**The First Minister:** The Minister for Health and Social Services announced her acceptance on 7 April of the recommendations of the doctors and dentists and NHS pay review bodies for 2008-09, together with her agreement to a three-year pay package negotiated with Unison and the Royal College of Nursing.

**Y Prif Weinidog:** Ar 7 Ebrill, cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn derbyn argymhellion cyrff adolygu cyflogau y GIG a meddygon a deintyddion ar gyfer 2008-09 yn ogystal â'i bod yn cytuno â chynnig pecyn tâl tair blynedd yn dilyn trafodaethau rhwng Unison a Choleg Brenhinol y Nyrsys.